
# Gweithdrefnau Gêm Golden Fortune




### Cyflwyniad

Dyma'r Gweithdrefnau Gêm ar gyfer GOLDEN FORTUNE (y "Gêm). Pan gaiff y Gêm ei chwarae, mae'r Rheolau ar gyfer Gemau Cardiau Crafu ("y Rheolau") a'r Gweithdrefnau hyn yn berthnasol. Gellir gweld y Rheolau a'r Rheolau Gêm Benodol mewn Safleoedd Manwerthu ac ar wefan y Loteri Genedlaethol yn **national-lottery.co.uk**.

Bydd gan unrhyw air neu ymadrodd yn y Gweithdrefnau hyn sydd ag ystyr penodol yr un ystyr â'r un a roddir iddo yn y Gweithdrefnau hyn neu yn y Rheolau (oni fydd y cyd-destun yn nodi'n glir fel arall).

### Manylion y Gêm

Enw'r Gêm: **"GOLDEN FORTUNE"**
Rhif y Gêm: **"Gêm 1359"**
Pris Manwerthu: **£3 am bob Cerdyn Crafu**

Ceir 1 siawns mewn 3.25 o ennill Gwobr ar bob Cerdyn Crafu yn y Gêm hon. Argraffwyd 22,378,680 o Gardiau Crafu ar gyfer y Gêm hon i gychwyn.

### Sut i chwarae ac ennill

Mae pedair ardal ar y Cerdyn Crafu – YOUR SYMBOLS (Adran Eich Symbolau), dau Grid Chwarae (y "Gridiau Chwarae", "Grid Chwarae" yn unigol) a BONUS GAME.

Mae Adran Eich Symbolau a'r Gridiau Chwarae yn ffurfio'r Brif Gêm at ddibenion y Gweithdrefnau Gêm hyn.

Gall Chwaraewyr ennill hyd at 10 gwaith ar Gerdyn Crafu.

### Y Brif Gêm

Mae pob Grid Chwarae yn cynnwys 16 o sgwariau, ac mae pob sgwâr yn cynnwys un o amrywiaeth o Symbolau Chwarae. Mae 16 o Linellau o bedwar sgwâr yn gysylltiedig â'r Gridiau Chwarae sydd wedi'u nodi fel LINE 1, LINE 2, LINE 3, LINE 4, LINE 5, LINE 6, LINE 7, LINE 8, LINE 9, LINE 10, LINE 11, LINE 12, LINE 13, LINE 14, LINE 15 a LINE 16. Ar ochr dde neu ar waelod pob Llinell mae'r gair PRIZE (y "Blwch Gwobr").


I chwarae'r Gêm, yn gyntaf dylech grafu'r haen gyfan oddi ar Adran Eich Symbolau i ddatgelu 18 o Symbolau Chwarae ("Eich Symbolau"). Yna, dylech grafu'r haen oddi ar y Symbolau Chwarae yn y Gridiau Chwarae sy'n cyfateb i Eich Symbolau yn unig.

Os caiff gofynion y Rheolau a'r Gweithdrefnau hyn eu bodloni, byddwch yn ennill Gwobr os byddwch yn datgelu pob un o'r pedwar Symbol Chwarae mewn Llinell lorweddol neu fertigol yn un o'r Gridiau Chwarae (gweler yr enghreifftiau isod). Bydd y Wobr yn gyfwerth â swm y Symbol Gwobr gyda'i Bennawd Gwobr cyfatebol o dan haen y Blwch Gwobr ar gyfer y Llinell honno.

### LLORWEDDOL:

Rhaid i chi ddatgelu 4 Symbol Chwarae sy'n cyfateb i Eich Symbolau sy'n cwblhau llinell lorweddol yn un o'r Gridiau Chwarae.

Enghreifftiau




18+

**GP GM1359**
Allwyn Entertainment Limited, PO Box 287, Watford WD18 9TT.
Llinell y Loteri Genedlaethol 0333 234 5050. Codir taliadau fel uchod am alwadau.

THE NATIONAL LOTTERY®

FERTIGOL:
Rhaid i chi ddatgelu 4 Symbol Chwarae sy'n cyfateb i Eich Symbolau sy'n cwblhau llinell fertigol yn un o'r Gridiau Chwarae.

Enghreifftiau



Mae'n bosibl cael hyd at 3 Llinell fuddugol ar un Grid Chwarae.

Symbolau Chwarae a Phenawdau Chwarae ar gyfer y Brif Gêm

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Symbolau Chwarae | | | | | |
| Penawdau Chwarae | -STAR | SCROLL | -LOCK | CHEST | -DICE |
| Symbolau Chwarae | | | | | |
| Penawdau Chwarae | WATCH | -BANK | -BARS | POTGLD | WHLBRW |
| Symbolau Chwarae | | | | | |
| Penawdau Chwarae | CROWN | -WAD- | COINS | DIAMND | MNYBAG |
| Symbolau Chwarae | | | | | |
| Penawdau Chwarae | MYTREE | EARRNG | GLDCUP | -SAFE | BRCASE |
| Symbolau Chwarae | | | | | |
| Penawdau Chwarae | EMRALD | NUGGET | GLDKEY | NCKLCE | -RING |
| Symbolau Chwarae | | | | | |
| Penawdau Chwarae | SCPTRE | THRONE | WALLET | | |

Bydd 18 o Symbolau Chwarae gyda'u Penawdau Chwarae cyfatebol yn ymddangos o dan yr haen yn Adran Eich Symbolau. Dim ond un Pennawd Chwarae sy'n ymddangos o dan bob Symbol Chwarae. Bydd pedwar Symbol Chwarae yn ymddangos o dan haen pob Llinell. Ni ellir cyfuno Symbolau Chwarae mewn un Llinell â Symbolau Chwarae mewn unrhyw Linell arall i ennill. Dim ond Symbolau Chwarae a Phenawdau Chwarae'r Brif Gêm y gellir eu defnyddio i chwarae'r Brif Gêm.

Symbolau Gwobr a Phenawdau Gwobr

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Symbolau Gwobr | £3.00 | £5.00 | £6.00 | £10.00 | £20.00 | £50.00 |
| Penawdau Gwobr | THREE | -FIVE | -SIX- | -TEN- | TWNTY | FIFTY |
| Symbolau Gwobr | £100 | £200 | £1,000 | £10,000 | £300K | |
| Penawdau Gwobr | -HUND | TWHUN | -THOU | TNTHO | TRHTH | |

18+

**GP GM1359**
Allwyn Entertainment Limited, PO Box 287, Watford WD18 9TT.
Llinell y Loteri Genedlaethol 0333 234 5050. Codir taliadau fel uchod am alwadau.

THE NATIONAL LOTTERY

Bydd un Symbol Gwobr gyda'i Bennawd Gwobr cyfatebol yn ymddangos o dan haen y Blwch Gwobr ym mhob Llinell yn y Gridiau Chwarae. Dim ond y Symbol Gwobr a'i Bennawd Gwobr cyfatebol o dan haen Blwch Gwobr mewn Llinell y gellir eu defnyddio i gadarnhau swm y Wobr y gallech ei hawlio, os o gwbl, mewn perthynas â'r Llinell honno.

## BONUS GAME

Mae Ardal Chwarae BONUS GAME yn cynnwys pedwar motiff ' '. Os caiff gofynion y Rheolau a'r Gweithdrefnau hyn eu bodloni, byddwch yn ennill Gwobr os byddwch yn datgelu Symbol Chwarae ' ' gyda'i Bennawd Chwarae cyfatebol o dan haen motiff ' ' yn Ardal Chwarae BONUS GAME. Bydd y Wobr yn gyfwerth â swm y Symbol Gwobr gyda'i Bennawd Gwobr cyfatebol a ddangosir o dan haen y Blwch Gwobr sydd yn union o dan y Symbol Chwarae ' ' hwnnw gyda'i Bennawd Chwarae cyfatebol.

### Symbolau Chwarae a Phenawdau Chwarae ar gyfer BONUS GAME

| Symbolau Chwarae | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Penawdau Chwarae | -BIKE- | MEDAL | TICKET | -VIP- | BUNDLE |
| Symbolau Chwarae | | | | | |
| Penawdau Chwarae | -SUN- | -RUBY | HOUSE | STACK | –ROLL |
| Symbolau Chwarae | | | | | |
| Penawdau Chwarae | -COIN | -CAR- | YACHT | PKWTCH | -WIN- |

Bydd pedwar Symbol Chwarae gyda'u Penawdau Chwarae cyfatebol yn ymddangos o dan yr haen yn Ardal Chwarae BONUS GAME. Dim ond Symbolau Chwarae'r BONUS GAME a'u Penawdau Chwarae cyfatebol y gellir eu defnyddio i chwarae'r BONUS GAME.

### Symbolau Gwobr a Phenawdau Gwobr ar gyfer BONUS GAME

| Symbolau Gwobr | £3.00 | £5.00 | £6.00 | £10.00 | £20.00 | £50.00 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Penawdau Gwobr | THREE | -FIVE | -SIX- | -TEN- | TWNTY | FIFTY |

Bydd un Symbol Gwobr gyda'i Bennawd Gwobr cyfatebol yn ymddangos o dan haen pob motiff ' ' yn Ardal Chwarae BONUS GAME. Dim ond y Symbol Gwobr a'i Bennawd Gwobr cyfatebol o dan haen motiff ' ' yn Ardal Chwarae BONUS GAME y gellir eu defnyddio i gadarnhau swm y Wobr y gallech ei hawlio, os o gwbl, mewn perthynas â BONUS GAME.

### Y Gwobrau, Nifer y Gwobrau a Thebygolrwydd

| Y Gwobrau | Nifer y Gwobrau Ar Ddechrau'r Gêm | Tebygolrwydd Bras (1 Mewn : ) Ar Ddechrau'r Gêm | Goddefiant ar gyfer y Tebygolrwydd o Ennill os caiff rhagor o docynnau eu hargraffu |
|---|---|---|---|
| £3 | 895,225 | 25 | +/- 5.00% |
| £3 £3 BONUS | 1,492,013 | 15 | +/- 5.00% |
| £5 | 745,956 | 30 | +/- 5.00% |
| £5 £5 BONUS | 1,268,000 | 18 | +/- 5.00% |
| £6 | 149,213 | 150 | +/- 5.00% |

| Y Gwobrau | | Nifer y Gwobrau Ar Ddechrau'r Gêm | Tebygolrwydd Bras (1 Mewn : ) Ar Ddechrau'r Gêm | Goddefiant ar gyfer y Tebygolrwydd o Ennill os caiff rhagor o docynnau eu hargraffu |
|---|---|---|---|---|
| £6 | £3 + £3 BONUS | 298,257 | 76 | +/- 5.00% |
| £6 | £3 x 2 | 298,335 | 76 | +/- 5.00% |
| £6 | £6 BONUS | 298,380 | 75 | +/- 5.00% |
| £10 | | 149,291 | 150 | +/- 5.00% |
| £10 | £10 BONUS | 223,760 | 101 | +/- 5.00% |
| £10 | £5 + £5 BONUS | 298,408 | 75 | +/- 5.00% |
| £10 | £5 x 2 | 298,380 | 75 | +/- 5.00% |
| £20 | | 74,643 | 300 | +/- 5.00% |
| £20 | £20 BONUS | 74,570 | 301 | +/- 5.00% |
| £20 | (£3 x 4) + £5 + £3 BONUS | 74,598 | 300 | +/- 5.00% |
| £20 | £10 + £10 BONUS | 74,598 | 300 | +/- 5.00% |
| £20 | £3 + £5 + £6 + (£3 BONUS x 2) | 74,519 | 301 | +/- 5.00% |
| £20 | (£3 x 2) + £5 + (£3 BONUS x 3) | 74,648 | 300 | +/- 5.00% |
| £50 | | 889 | 25,173 | +/- 5.00% |
| £50 | £50 BONUS | 2,119 | 10,561 | +/- 5.00% |
| £50 | (£5 x 2) + £10 + £10 BONUS + £20 BONUS | 2,145 | 10,433 | +/- 5.00% |
| £50 | (£5 x 6) + (£5 BONUS x 4) | 7,112 | 3,147 | +/- 5.00% |
| £50 | (£5 x 2) + £6 + £10 + (£6 BONUS x 4) | 3,539 | 6,324 | +/- 5.00% |
| £50 | (£5 x 5) + £5 BONUS + (£10 BONUS x 2) | 5,344 | 4,188 | +/- 5.00% |
| £50 | (£6 x 5) + £20 BONUS | 1,795 | 12,468 | +/- 5.00% |
| £100 | | 526 | 42,546 | +/- 5.00% |
| £100 | (£10 x 4) + (£20 x 2) + (£5 BONUS x 4) | 1,071 | 20,896 | +/- 5.00% |
| £100 | £3 + £5 + (£20 x 4) + (£3 BONUS x 4) | 1,073 | 20,857 | +/- 5.00% |
| £100 | (£20 x 2) + £50 + £10 BONUS | 529 | 42,304 | +/- 5.00% |
| £100 | (£10 x 2) + £20 + (£10 BONUS x 2) + (£20 BONUS x 2) | 528 | 42,384 | +/- 5.00% |
| £100 | (£5 x 4) + (£20 x 2) + (£20 BONUS x 2) | 710 | 31,520 | +/- 5.00% |
| £200 | | 175 | 127,879 | +/- 7.13% |
| £200 | (£10 x 2) + (£20 x 3) + £100 + (£5 BONUS x 4) | 177 | 126,434 | +/- 7.13% |
| £200 | £3 + £5 + £20 + (£50 x 3) + (£5 BONUS x 2) + (£6 BONUS x 2) | 172 | 130,109 | +/- 7.13% |
| £200 | (£10 x 4) + £100 + (£10 BONUS x 2) + (£20 BONUS x 2) | 173 | 129,357 | +/- 7.13% |
| £1,000 | | 4 | 5,594,670 | +/- 36.55% |
| £1,000 | £200 x 5 | 4 | 5,594,670 | +/- 36.55% |
| £10,000 | | 4 | 5,594,670 | +/- 36.55% |
| £300,000 | | 4 | 5,594,670 | +/- 36.55% |

Wrth i'r Gwobrau gael eu hennill, bydd nifer y Gwobrau sydd ar gael ym mhob categori yn lleihau yn unol â hynny. Gall y Gêm barhau i gael ei gwerthu ar ôl i'r Wobr uchaf olaf gael ei hawlio. Er mwyn dod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf am y Gwobrau, ewch i **national-lottery.co.uk** neu ffoniwch Linell y Loteri Genedlaethol ar **0333 234 5050**. Ni fydd galwadau yn costio mwy na galwadau i rifau 01 a 02. Os yw eich tariff ffôn yn cynnwys galwadau i linellau tir, caiff galwadau i rifau 03 eu cynnwys ar yr un sail.

18+

**GP GM1359**
Allwyn Entertainment Limited, PO Box 287, Watford WD18 9TT.
Llinell y Loteri Genedlaethol 0333 234 5050. Codir taliadau fel uchod am alwadau.

THE NATIONAL LOTTERY

### Gwerth Gwobrau yn Y Gêm

Mae cyfanswm gwerth Gwobrau'r Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn yn cynrychioli 67.21% o gyfanswm gwerth enwol y Cardiau Crafu. £45,124,764 yw cyfanswm gwerth Gwobrau'r Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn.

Mae nifer y Gwobrau y gellir eu hennill gan y Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn yn cyfateb i nifer y Cardiau Crafu a gofnodwyd ar System Gyfrifiadurol Allwyn ac yr hysbyswyd y Comisiwn Hapchwarae amdanynt yn ffurfiol cyn gwerthu unrhyw Gardiau Crafu. Ni chaiff y manylion yn y Gweithdrefnau hyn eu diwygio er mwyn ystyried unrhyw Gardiau Crafu a werthir neu a gollir yn y dyfodol, Cardiau Crafu a gaiff eu tynnu'n ôl yn y dyfodol (lle y caiff y Cardiau Crafu hynny eu tynnu'n ôl gan Allwyn heb wybod a ydynt yn Gardiau Crafu â Gwobrau), na Chardiau Crafu ychwanegol a gaiff eu hargraffu ar gyfer y Gêm. Os bydd gwobr uchaf ar gael o hyd, gall Allwyn argraffu Cardiau Crafu ychwanegol ar gyfer y Gêm hon. Os caiff Cardiau Crafu ychwanegol eu hargraffu ar gyfer y Gêm hon, o ran y Cardiau Crafu ychwanegol hynny, bydd y tebygolrwydd cyffredinol o ennill Gwobr ar bob lefel Gwobr, gan ystyried y lefelau goddefiant a nodir yn y tabl uchod, yr un fath ag ar gyfer y Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn.

### Cyffredinol

Os bydd unrhyw wrthdaro rhwng y Rheolau, y Gweithdrefnau hyn ac unrhyw wybodaeth arall a gyhoeddir gan Allwyn o ran y Gêm hon, y Rheolau fydd drechaf, yna'r Gweithdrefnau ac yna unrhyw wybodaeth arall a gyhoeddir gan Allwyn.